



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol  
(Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022

**DYDDIAD** 21 Hydref 2022

**GAN** Lesley Griffiths AS/MS  
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd  
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Bydd Aelodau'r Senedd am fod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gosodwyd yr Offeryn Statudol uchod gerbron Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 20 Hydref 2022 wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Gwnaed y Rheoliadau drafft o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac maent yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir rhag gweithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae cyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid perthynol, neu symud anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid drwy Brydain Fawr.

Mae'r Rheoliadau drafft yn addasu Cyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd, yn trosglwyddo swyddogaethau cyrff yr UE o fewn y Cyfarwyddebau UE hynny i'r awdurdod priodol ac yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Yr Alban) 2011 i ddiweddarau'r drefn ddeddfwriaethol ac i addasu a throsglwyddo swyddogaethau.

Yn fuan bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau cyfatebol, a fydd yn creu nifer o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ac yn diwygio Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

## **Yr effaith y gall yr offeryn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Nid yw'r Rheoliadau drafft yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd. Dim ond yn achos pwerau a gedwir yn ôl y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru heb gydsyniad, a dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru mewn maes datganoledig.

Mae deddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn dod o dan eithriad yng Ngorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, ac felly ni fydd creu'r swyddogaethau cydredol plws hyn yn amharu ar allu'r Senedd i ddeddfu yn y maes hwn yn y dyfodol, os yw'n dymuno gwneud hynny.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi arferol Llywodraeth Cymru yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig. Ond mewn rhai amgylchiadau mae manteision i gydweithio gyda Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod wrth newid polisi yn y dyfodol a chadw at rwymedigaethau rhyngwladol, a sicrhau cydgyssylltiad a chysondeb traws-lywodraethol.

Gosodwyd fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 20 Hydref 2022 i ddod i rym ddiwrnod yn dilyn dadl a fydd yn cael ei chynnal rhwng 11 Tachwedd a 1 Rhagfyr.